

Datganiad Preifatrwydd Asiantau Entrepreneuriaeth Ieuenctid

Llywodraeth Cymru fydd y Rheolwr Data ar gyfer y data personol a roddwch i Syniadau Mawr Cymru. Bydd y data'n cael ei brosesu yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd eich data personol yn cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon ac mewn modd tryloyw. Cymerwch eiliad i ymglyfarwyddo â'n harferion preifatrwydd.

Wrth wneud cais i fod yn Asiant Entrepreneuriaeth Ieuenctid a chymryd rhan ynddo trwy Gyfnewidfa Entrepreneuriaeth Cymru, gofynnir ichi ddarparu data personol i sicrhau y gallwn gysylltu â chi a'ch hysbysu am y gwasanaethau sydd ar gael i'ch helpu. Rydym yn prosesu'ch data yn unol â'r awdurdod swyddogol sydd wedi'i freinio yn Llywodraeth Cymru i gefnogi entrepreneuriaeth ieuenctid yn unol â'r strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Bydd eich data yn cael ei brosesu gan Lywodraeth Cymru a'r darparwyr gwasanaeth canlynol:

- Shaw Trust a Cazbah sy'n cynnal digwyddiadau a gweithdai ar ran Syniadau Mawr Cymru
- Antur Teifi a Business in Focus sy'n rhedeg y bwt-camps, digwyddiadau, gweithdai ac sy'n darparu cymorth busnes cyn cychwyn ar ran Busnes Cymru
- Cyrff ymchwil a benodwyd gan Lywodraeth Cymru sydd â contract i wneud ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru

Bydd eich data yn cael ei gadw trwy gydol rhaglen Syniadau Mawr Cymru ynghyd â 10 mlynedd ychwanegol at ddibenion archwilio.

Newidiadau i'r polisi hwn

Gall Llywodraeth Cymru wneud newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg. Bydd newidiadau yn cael eu postio yma ac yn dod i rym ar unwaith. Pan fydd newidiadau i'r polisi hwn byddwn yn cysylltu â chi ar y cyfeiriad e-bost yr ydym wedi'i gofnodi yn eich cyfrif i'ch galluogi i adolygu'r fersiwn newydd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i'r canlynol:

- Mynediad at y data Personol yr ydym yn ei brosesu amdanoch;
- Ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- Yr hawl (mewn rhai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu;
- Yr hawl (mewn rhai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu';
- Cyflwyno cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) sef ein rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data

Os ydych chi am gysylltu â ni i drafod cwyn neu bryder sydd gennych chi am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu eich data personol, neu eisiau gofyn am ddileu eich data, gallwch ofyn am gael siarad â'r Swyddog Diogelu Data trwy ffonio llinell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000 neu trwy gysylltu â ni ar-lein ar <https://businesswales.gov.wales/bigideas/cy/ein-cefnogaeth/cysylltwch-ni>

Os oes gennych bryderon neu gŵyn ynglŷn â sut mae Llywodraeth Cymru yn trin data o dan GDPR, y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Customer Contact Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau gwybodaeth

Cyfeiriad post:
Swyddog Diogelu Data,
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ Cyfeiriad e-bost:
swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'ch Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am weld gwybodaeth a gedwir gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Gall y wybodaeth a roddwch inni fod yn destun cais rhyddid gwybodaeth gan aelod arall o'r cyhoedd. Byddem yn ymgynghori â chi i ofyn am eich barn cyn ymateb i gais o'r fath.